


FEB 2003


AROLWG CYMUNEDOL MELINDWR



MELINDWR COMMUNITY AUDIT

Paratowyd gan Archaeoleg Cambria
Ar gyfer Pentir Pumlumon

Prepared by Cambria Archaeology
For Pentir Pumlumon



ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY

RHIF YR ADRODDIAD / REPORT NO. 2003/30
RHIF Y PROSIECT / PROJECT RECORD NO. 47575

Chwefror 2003
February 2003

AROLWG CYMUNEDOL
MELINDWR
COMMUNITY AUDIT

Gan / By

Paul Sambrook
&
Jenny Hall

*Enw marchnata Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw Archaeoleg Cambria
Cambria Archaeology is the marketing name of the Dyfed Archaeological Trust Limited.*

Paratowyd yr adroddiad yma at ddefnydd y cwsmer yn unig. Ni dderbynir cyfrifoldeb gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am ei ddefnyddio gan unrhyw berson na phersonau eraill a fydd yn ei ddarllen neu ddibynnu ar y gwybodaeth y mae'n ei gynnwys

The report has been prepared for the specific use of the client. The Dyfed Archaeological Trust Ltd can accept no responsibility for its use by any other person or persons who may read it or rely on the information it contains.

ARCHAEOLEG CAMBRIA
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
Ebost: cambria@acadat.com Gwefan: www.acadat.com


CAMBRIA ARCHAEOLOGY
Dyfed Archaeological Trust Limited
The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF
Tel: General Enquiries 01558 823121
Heritage Management Section 01558 823131
Fax: 01558 823133
Email: cambria@acadat.com Website: www.acadat.com

*The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)
CADEIRYDD CHAIRMAN: B.C.BURNHAM, MA PHD FSA MIFA. CYFARWYDDWR DIRECTOR: E G HUGHES BA MIFA*

Cynnwys Contents


Arolwg Cymunedol Melindwr	
Melindwr Community Audit	5
Rhan 1: Hanes ac archaeoleg	
Part 1: History and archaeology	6
Cymraeg	7
English	14
Llyfrau i'w darllen / Reading List	21
Rhan 2: Mynegai mathau o safleoedd a mapiau	24
Part 2: Site type index and maps	
Rhan 3: Rhestr safleoedd	
Part 3: Gazetteer	

*Ceir manylion cyswllt a ffurflen cofnodi hanes lleol ar ddiwedd yr adroddiad
Contact details and a local history record form are at the end of the report.*



Map 1: Ardal Pentir Pumlumon
Pentir Pumlumon Area

Map 2: Cymuned Melindwr
Melindwr community



AROLWG CYMUNEDOL MELINDWR

Diffinnir ardal yr astudiaeth hon gan ffin ardal y Cyngor Cymuned modern.

I raddau helaeth, mae'r safleoedd hanesyddol ac archaeolegol sydd wedi eu cofnodi o fewn yr ardal yn nodwediadol o'r math o safleoedd a ganfyddir ar draws gweddill Canolbarth Ceredigion.

Yn Rhan 1 o'r adroddiad hon, cyflwynir esboniad o'r prif ffrydiau hanesyddol sydd ar glawr, fesul cyfnod archaeolegol. Mae rhai themâu lleol cryf hefyd yn cael eu cyflwyno i derfynu.

Mae Rhan 2 yn cynnwys rhestr o'r safleoedd sydd ar glawr yn ôl math y safle, gyda chyfres o fapiau thematig i ddangos eu lleoliad o fewn y gymuned.

Yn Rhan 3, cyflwynir manylion yr holl safleoedd archaeolegol ac hanesyddol sydd wedi eu cofnodi yn y Cofnod Safleoedd a Henebion. Er bod rhestr hir o safleoedd wedi eu cynnwys fe welir, yn ddiua, fod yna safleoedd a lleoedd o bwys hanesyddol nad ydynt wedi eu cofnodi eto. Ein gobaith yw y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei ychwanegu i'r cofnodion yn sgil y gwaith hwn i greu cofnod llawnach a chywirach o hanes y gymuned.

MELINDWR COMMUNITY AUDIT

The area of this study is defined by the boundaries of the modern Community Council area.

To a large extent, the historic sites that are recorded within this area are typical of the site types that are to be found across the rest of Central Ceredigion. The information included in this working report is derived solely from the regional Sites and Monuments Record that is maintained by Cambria Archaeology.

Part 1 of this report includes a description of the main historical themes that are known to us, arranged by archaeological period. Some themes of particular relevance to the community are presented in summary.

Part 2 includes a list of all recorded sites arranged by site type, with a series of thematic maps showing their location within the community.

Part 3 includes details of all archaeological and historical sites recorded in the Sites and Monuments Record. Despite there being a long list of sites presented here, it will doubtlessly be the case that there will be sites and themes of historic importance that are not included. It is to be hoped that new information can be added to the record as a result of this project in order to create a fuller and more accurate record of the community's history.

RHAN 1: Hanes ac archaeoleg

PART 1: History and archaeology

Mesolithig (10000 CC – 4000 CC)

Yn ystod y cyfnod pell hwn, tybir fod cymunedau dynol yn defnyddio coedwigoedd naturiol yr ardal mynyddig yma ar gyfer hela yn achlysurol. Roedd pobol y cyfnod yn helwyr-gasglwyr, nid ffermwyr, ac felly yn tueddu crwydro o fan i fan yn hytrach na byw mewn mannau sefydlog.

Gan nad oedd ynt yn adeiladu tai parhaol na chladdu mewn beddau y medrwn ni eu hadnabod heddiw, mae'n anodd canfod safleoedd sy'n dangos presenoldeb pobl yr oes yma. Yn aml, yr unig arwyddion y gellir eu hadnabod yw'r gwasgariadau fflint gadawsant wrth wneud eu teclynnau ac sydd yn dynodi'r safleoedd lle y byddai grwpiau o'r helwyr hyn yn aros am gyfnod, ac hefyd arfau fflint a gollwyd neu daflwyd i ffwrdd.

Ychydig o safleoedd tebyg sydd wedi eu hadnabod hyd yma yn y fro hon, yn wir, 'does dim un o fewn cymuned Melindwr eto. Mae yna wasgariadau o fflint wedi ei ddarganfod i'r dwyrain yn Nantymoch, Blaenrheidal (sydd bellach dan ddwr y llyn) ac un pen brysgyll (*macehead*) fflint a ganfuwyd yn ymyl y Bwa, yng nghymuned Pontarfynach.

Neolithig (4000 CC – 2500 CC)

Y Neolithig oedd oes y ffermwyr cyntaf yn y wlad ac mae'n lled bosibl roedd y broses o ffermio'r tir wedi dechrau yn yr ardal yma.

Mae cofnodion am ddau fwyell carreg Neolithig wedi eu darganfod yn lleol, un ym 1881 a'r llall tua 1947 (PRN 6239 a 10578). Maent yn dystiolaeth pwysig o bresenoldeb pobl yn yr ardal, ond nid ydynt yn ddigon i'n galluogi ni i ddweud llawer am raddfa y bresenoldeb dynol yn ystod y cyfnod. Sut bynnag, mae archaeoleg y fro yn gyffredinol yn dangos yn eglur inni fod yna gymdeithas drefnus yma yn ystod Oes yr Efydd ac fe all fod ei seiliau i'w canfod yn y Neolithig.

Oes yr Efydd (2500 CC – 800 CC)

Mae cymuned Melindwr yn frith o olion carneddau claddu Oes yr Efydd. Mae un ohonynt yn Heneb Gofrestredig (PRN 4155).

Yn ogystal â'r carneddau, mae nifer o meini hirion possibl yn y gymuned, ond maent oll yn enghreifftiau bychain. Mae pâr o gerrig a elwir "Y Buwch a'r Llo" (PRN 5613) yn gysylltiedig â thraddodiad yr oedd gwartheg unwaith yn cael eu clymu i'r cerrig hyn i bori. Mwy na thebyg mae'r enw yn tarddu o'r ffaith fod yn garreg yn fwy na'r llall ac felly maent i'w cymharu i fuwch a'i llo yn sefyll ar y tir comin. Cerrig naturiol yw'r rhain yn ôl pob tebyg, nid meini hirion wedi eu gosod gan ddyn. Serch hynny, maent yn amlwg wedi tynnu sylw pobl yn y gorffennol a dod yn destun traddodiad.

Mae carneddau a meini hirion wedi eu profi i fod yn gysylltiedig â chladdfeydd amlosgiad, gyda lludw'r meirw yn cael ei gosod mewn yr nâu claddu priddfaen. Mae dwy garnedd yn y gymuned wedi cael eu cloddio gan archaeolegwyr yn y gorffennol. Darganfuwyd dau wrn claddu mewn un garnedd ym Mlaen Dyffryn Isaf (PRN 5605) tua diwedd y 19eg ganrif ym 1928 a dau wrn claddu ac esgyrn llosgedig mewn carnedd arall yno (PRN 5565).

Safle arall lle daethpwyd o hyd i olion dynol o'r un oes, yn annisgwyl iawn, oedd ym mynwent Capel Penllwyn, Capel Bangor. Pan oedd torrwr beddau wrth ei waith yma tua 1925, agorodd bedd

(PRN 5416) oedd yn dyddio i Oes yr Efydd ac yn cynnwys olion corfflosgiad dyn canol oed, mewn wrn claddu. Yn rhyfedd iawn, roedd y bedd wedi cael ei lenwi gyda cerrig mân i orchuddio'r wrn.

Er y gallwn adnabod safleoedd lle claddwyd y meirw yn ystod Oes yr Efydd, mae absenoldeb o dystiolaeth am anheddu pobl y cyfnod ar hyn o bryd.

Mae darganfyddiadau lleol o fwyelli cerrig yn ein helpu i ddod yn agosach at bobl y cyfnod hefyd. Mae un enghraifft da wedi ei chofnodi yn yr ardal hon (PRN 9998). Cedwir y bwyell yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.

Mae'r hyn sy'n hysbys yn ddigon i ni fod cymunedau sefydlog yn y fro hon 3,500 o flynyddoedd yn ôl. Yn anffodus, nid yw wedi profi'n bosibl i adnabod safleoedd anheddiad o Oes yr Efydd yn yr ardal eto ac mae angen gwneud llawer o waith eto cyn y deallwn natur y cymunedau oedd yn bodoli yma yn ystod y cyfnod hwn.

Yr Oes Haearn (800 CC – 43 OC)

Ymhlieth y safleoedd sy'n nodwediadol o'r cyfnod hwn y mae'r bryngaerau amddiffynnol, a godwyd er mwyn diogelu pobl ac eiddo mewn cymdeithas oedd yn cael ei dominyddu gan penaethiaid rhyfelgar a'u gosgorddion.

Mae yna chwech o fryngaerau yng nghymuned Melindwr, y rhan fwyaf ohonynt mewn cyflwr da. Mae pedwar o'r caerau yn y gymuned hon (PRN 1992, 4136, 5173 a 2026) yn gaerau pentir, tra bo'r ddu arall (PRN 2021 a 2056) yn sefyll ar ben bryniau. Mae rhaid tanlinellu eu pwysigrwydd fel grwp, mewn cysylltiad â chaerau eraill mewn cymunedau cyfagos, am eu bod yn profi presenoldeb cymunedau sefydlog yn y fro rhwng 2,000 a 3,000 o filoedd o flynyddoedd yn ôl. Mae pedwar o fryngaerau Melindwr yn Henebion Cofrestredig (PRN 1992, 2026, 2056 a 5173).

Roedd y bryngaerau o adeiladwaith gryf fel arfer ac felly mae eu holion wedi goroesi ers dros 2,000 o flynyddoedd. Yr hyn sydd wedi ei golli o'r cyfnod yw'r dystiolaeth am gartrefi y bobl gyffredin nad oeddynt yn byw yn y caerau. Mae'n debyg mai y tu allan i'r caerau byddai'r rhan fwyaf yn byw - yn ffermio'r tir ac yn byw mewn tai a bythynnod gwasgaredig, o bosibl yn ddianc i ddiogelwch y caerau ar adegau o ryfel neu ymosodiadau gan lwythi eraill – 'does dim amheuaeth fod bywyd yn beryglus ar adegau i bobl yr oes.

Mae presenoldeb y bryngaerau yn awgrymu yn gryf inni fod ffermio ac anheddu parhaol yn ardal gymuned Melindwr yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â defnydd o goedwig oedd a phorfeydd mynyddig yr ardal er mwyn cynnal y boblogaeth.

Y Cyfnod Rhufeinig (43 OC – 410 OC)

Eto, ychydig iawn a wyddom am yr ardal yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Mae'n bosibl fod bywyd mewn ardal wledig fel Melindwr wedi parhau yn dawel yn ystod blynyddoedd hyn, ond y tebyg yw i'r ardal brofi cryn dipyn o newid diwylliannol ac economaidd dros bron i 400 mlynedd o ddyylanwad gan y byd Rhufeinig. Gwyddom, er enghraifft, fod yr hen fryngaerau Celtaidd oll wedi cael eu gadael yn segur ar ôl i'r Rhufeiniaid orchfygu Cymru.

Mae yna gaer Rhufeinig ym Mhenllwyn, Capel Bangor, sydd ddim mewn cyflwr da iawn. Pan gloddiwyd yma tua diwedd y 1970au ychydig o dystiolaeth a ddarganfuwyd i helpu dyddio'r gaer. Daethpwyd o hyd i rywfaint o grochenwaith sy'n dyddio i'r blynyddoedd tua 120OC, prawf fod

hon yn gaer gymharol gynnar. Gwyddom fod caer Trawsgoed, gerllaw, yn cael ei defnyddio rhwng tua 70OC a 125OC, ac mae'n bosibl roedd Penllwyn yn cael ei defnyddio am gyfnod tebyg.

Mae rhagor o dystiolaeth i'r Rhufeiniaid fod yn bresennol yng nghyffiniau'r fro oherwydd lleoliad caerau Rhufeinig Trawsgoed a Llanio i'r de a Chae'r Gaer (plwyf Llangurig, Powys) i'r ddwyraint. Gwyddom hefyd am fodolaeth y ffordd Rhufeinig sy'n rhedeg o Bumsaint, Sir Gaerfyrddin, trwy ganol y gymuned, i fyny i ardal Machynlleth. O bosibl, roedd mwynau Canolbarth Ceredigion yn atyniad i'r Rhufeiniaid, ond nid oes dystiolaeth, ar hyn o bryd, fod y Rhufeiniad wedi cloddio am fwynau yn y gymuned hon.

Yr Oesoedd Tywyll neu "Oes y Saint" (410 OC – 1092 OC)

Yn ôl traddodiad, cai Ceredigion ei enw oddi wrth Ceredig fab Cunedda, tywysog Cymreig a ddaeth i'r fro o Ogledd Prydain er mwyn amddiffyn arfordir gorllewinol y Cymry oddi wrth y Gwyddelod. Dywed traddodiad hefyd fod y Ceredig hwn yn daid i Dewi Sant, mabsant Cymru. Prif sant Ceredigion, sut bynnag, oedd Padarn ac mae ei brif-eglwys i'w chael yn Llanbadarn Fawr, nid nepell o ffin gorllewinol Melindwr.

Yng Nghymru, "Oes y Saint" yw'r enw sy'n cael ei rhoi ar y cyfnod hwn yn aml, yn hytrach na'r Oesoedd Tywyll, i dystio am dwf yr eglwys trwy ymdrechion llu o saint Celtaidd cynnar. Gwelir hwn fel cyfnod o oleuni yn hytrach na thywyllwch yng Nghymru gan lawer i hanesydd.

Er bod y traddodiadau yn hysbys inni, gwyddom ond ychydig am gymdeithas y cyfnod yn yr ardal hon. Mae Melindwr yn un o'r cymunedau prin yn y sir sydd heb gofnod o eglwys gynnar nac eglwys ganoloesol hyd yn oed. Gwasanaethwyd ardal eang iawn, oedd yn cynnwys Melindwr, gan eglwys Llanbadarn Fawr trwy'r canoloesoedd a does dim cofnod am unrhyw gapel anwes nac eglwys llai nes y 19fed ganrif pan adeiladwyd eglwysi Dewi Sant, Capel Bangor a chapel anwes Goginan.

Un bwyt sydd gwerth ei nodi yma yw bod enw Capel Bangor ei hun yn diddorol. Mae "bangor" yn cael ei gysylltu â safleoedd eglwysig cynnar yn aml iawn, ond ni wyddom beth yw arwyddocâd yr enw yma.

Y Canoloesoedd (1092 OC – 1540 OC)

Yn ystod y cyfnod hwn y gwelwn Ceredigion yn dod yn un o brif rhanbarthau Cymru. Cafodd ei concro gan y Normaniaid yn 1093 a dilynodd gyfnod ansicr iawn, gyda'r Cymry a'r Normaniaid yn brwydro am oruchafiaeth am 200 mlynedd bron. Yn ystod ail-hanner y 12fed ganrif, daeth Ceredigion i fod yn rhan annatod o deyrnas Ddeheubarth, o dan arweinyddiaeth Rhys ap Gruffudd, Yr Arglwydd Rhys, o Ddinefwr. Ar ôl ei farwolaeth ef, bu gwrthdaro ymhellach rhwng ei feibion a Llywelyn Fawr o Wynedd. Ni ddihangodd Ceredigion oddi wrth rhylloedd y 13eg ganrif ychwaith, pan goncwerwyd Cymru gyfan adeg cwmp Llywelyn ap Gruffudd.

Mae safle posibl castell sy'n perthyn i'r cyfnod cythryblus yma o fewn y gymuned. Mae sôn am gastell yn ardal Nantyrarian ym 1216 (PRN 5675) ac mae'n bosibl fod y bryngaer Oes yr Haearn uwchben Goginan (PRN 2026) wedi cael ei addasu yn ystod y canoloesoedd i'w ddefnyddio fel amddiffynfa newydd.

Y gwybodaeth sicraf yn ein meddiant mewn cysylltiad â'r ardal ehangach yw'r hanes sydd ar glawr am ddatblygiad ystadau'r abatai mawr o'r 12fed ganrif ymlaen. Gyda'u rhoddion o diroedd eang

gan dywysogion ac arglwyddi'r cyfnod, roedd gan y mynachod rheolaeth dros ystadau mawrion, oedd yn cynhyrchu bwydydd, gwartheg, defaid a gwlan.

Roedd gan Abaty Cwmhir, Powys ystad yn Nantyrarian oedd yn cynnwys felin dwr a thiroedd pori mynyddig. Roedd yn ymestyn o Bonterwyd i lawr i Goginan ac o bosibl yn seiliedig ar arglwyddiaeth bychan Nantyrarian. Daeth diwedd i hanes oleuedig yr abaty a'i hastadau pan ddiddymwyd yr abatai gan Harri'r VIII ym 1536, pan werthwyd yr adeiladau a'r tiroedd i berchnogion newydd.

Y Cyfnod Ôl-ganoloesol: safleoedd diwydiannol (1540 OC – 1900 OC)

Mae dystiolaeth archaeolegol yn dangos bod mwynau metel y fro wedi cael eu gweithio ers Oes y Pres, tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl. Y safle pwysicaf yn y cyswllt yma yw Bryn Copa, Cwmystwyth, Pontarfynach, ond o fewn ffiniau cymuned Melindwr, mae awgrym hefyd fod mwyloddiad wedi digwydd yn yr un cyfnod ger mwyloddiad Ty'n y Fron, Cwm Rheidol ac hefyd yn hen weithfeydd y Rheidol United ar ochr arall Cwm Rheidol.

Gwyddom fod twf sylweddol yn nifer a maint y mwyloddiad lleol wedi digwydd rhwng y 17eg a 19eg ganrif ar draws yr ardal, ac mae'r cofnodion yn dangos bod rhai o'r gweithfeydd mwyaf llwyddiannus yn y sir i'w cael yn yr ardal. Mae olion mwyloddiad fel Goginan (PRN 8338), Cwmbwrwyno (PRN 9170) a gweithfeydd Rheidol United (PRN25887 – 25891) ynghyd â llu o weithfeydd llai, oll yn dyst i hyn. Mae dros 30 o fwyloddiad wedi eu cofnodi yn y gymuned, y rhan fwyaf yn gweithfeydd bach oedd wedi cynhyrchu ychydig iawn o fwynau; plwm a sinc gan fwyaf, gydag ychydig o gopr ac arian hefyd. Goginan oedd y gwaith mwyaf o bell ffordd. Mae'i hanes yn ymestyn yn ôl i'r 17eg ganrif, ond dengys cofnodion y 19eg ganrif yn unig bod dros 45,000 tunnell o blwm wedi ei godi yno.

Mae'r diwydiant mwyloddiad wedi gadael ei farc ar dirwedd y fro, gydag olion yr hen lefelau, sialfftau a'r tipiau o gerrig wast yn amlwg iawn mewn nifer o lefydd, er bod llawer wedi cael ei golli. Mae yna gryn dipyn o archaeoleg tanddaebarol yn gysylltiedig â mwyloddiad hefyd, sydd ddim ar agor i'r cyhoedd ar hyn o bryd am fod yr hen weithfeydd yn aml yn beryglus.

Ni ddylid anghofio chwaith am y dystiolaeth weladwy o'r yr effaith cafodd y diwydiant holl bwysig yma ar fywyd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol y fro. Mae naws ôl-ddiwytiau i bentrefi fel Goginan ac Hen Goginan, yn nhermau y math o dai sydd yma. Yng Ngoginan hefyd, gwelir adeiladau capeli mawr o bob enwad (oll wedi cau bellach) oedd unwaith yn gartrefi ysbrydol i'r boblogaeth mawr oedd yn cael gwaith a chynhaliaeth yn y gweithfeydd mwyn. Mae hyn yn cynnwys yr hen gapel Wesleiaidd, sydd yn dy annedd bellach, a saif gerllaw rhes o hen fythynnod mwynwyr o Gernyw a elwir "Cornish Row". Roedd y mwynwyr o Gernyw yn Wesleaid gan fwyaf ac mae cof am eu presenoldeb yn y fro yn fyw o hyd.

Nid mwyloddiad oedd yr unig fath o ddiwydiant i gyrraedd y fro. Gwelir nifer dda o hen chwareli yn y fro lle cloddiwyd am gerrig adeiladu ers lawer dydd.

Ceir safleoedd melinau yd a gwlan o fewn y gymuned. Mae pedair melin yd wedi eu cofnodi (PRN 5421, 19147, 19157 a 21437). Credir mai Felin Graig (PRN 21437) yw safle'r felin oedd gan Abaty Cwmhir ar eu hastad yn Nantyrarian. Mae olion y felin i'w gweld heddiw, ond ychydig sydd i'w gweld ar wyneb y tir. O bosibl, gorwedd ei chyfrinachau mwyaf diddorol o dan y wyneb, allan o'r golwg. Yn ystod y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif, roedd yna felin wlân ym mhentref Capel Bangor.

Gall neb deithio trwy'r fro a methu sylwi ar yr effaith mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cael ar y dirwedd. Mae rhannau sylweddol o'r ardal wedi cael eu gorchuddio gan fforestydd coniffer trwchus. Dechreuodd y plannu ar raddfa eang yng Nghanolbarth Ceredigion yn ystod y 1950au. Erbyn heddiw, mae'r coedwigoedd yn cynnig cyfleoedd da am ddatblygu llwybrau ar gyfer hamdden a mwynhad, yn ogystal â choed i'w werthu. Fe all rôl y Comisiwn Coedwigaeth mewn datblygu a rheoli eu tiroedd fod yn allweddol iawn i ddyfodol y fro am lawer o resymau, ac mae eu canolfan ymwelwyr yn Nantyraian eisoes yn atyniad poblogaidd.

Adlewyrchiad o fenter diwydiannol yr oes a fu yw presenoldeb rheilffordd enwog Cwm Rheidol, sy'n dal i weithio a chysylltu pentref Pontarfynach gyda thref Aberystwyth. Pan adeiladwyd y rheilffordd ym 1902, roedd y fasnach mwynau heb orffen a defnyddiwyd y lein i gario plwm a mwynau eraill o Gwmystwyth (trwy Bontarfynach) a mwynghloddiau eraill ar hyd Cwm Rheidol. Bellach, teithwyr pleser yn unig sy'n cael eu cario ac mae'r lein wedi troi yn atyniad poblogaidd iawn sy'n dilyn Cwm Rheidol trwy rhan ddeheuol y gymuned.

Y Cyfnod Ôl-ganoloesol: safleoedd eraill (1540 OC – 1900 OC)

Amaeth ac Anheddu Gwledig

Ers canrifoedd, mae natur amaethyddiaeth y fro wedi cael ei nodweddu gan ffermydd a phentrefi bychain gwasgaredig a ffermio sydd wedi bod yn asgwrn gefn y fro ers cyfnodau cynnar. Yn ôl pob tebyg, roedd ffermydd yr ardal yn symud eu creaduriaid i borfeydd mynyddig i'r dwyrain dros fisioedd yr haf am fod ychydig o dir ymylol neu fynydd-dir ar gael yma at y diben.

Mae'r patrwm anheddu modern yn dal i fod yn un o anheddu gwasgaredig ar y cyfan, gydag ond ychydig o bentrefi wedi datblygu dros y 200 mlynedd diwethaf, fel Hen Goginan, Goginan, Pisgah a Chapel Bangor. Tra bod pentrefi Goginan wedi tyfu oherwydd datblygiadau diwydiannol, mae twf pentrefi bychain eraill y gymuned yn bennaf yn ganlyniad i ddatblygiadau cymdeithasol ac economaidd y cyfnod Ôl-ddiwydiannol ac wedi tyfu i gynnwys eglwysi, capeli, melinau a gefeiliau.

Yr ystadau mawrion

Rhwng y 16eg a'r 20fed ganrifoedd, roedd nifer o ystadau mawrion yn berchen ar y rhan fwyaf o'r tir yn yr ardal. Tyfodd rhai o'r rhain allan o ystadau Abaty Ystrad Fflur. Pan ddiddymwyd yr Abatai yn ystod y 1530au gan y Brenin Harri VIII, dechreuwyd y broses o rannu tiroedd eang a gweddol gyfoethog Ystrad Fflur a'u gwerthu i mewn i ddwylo preifat. Mae enwau ystadau'r Hafod, Nanteos, Trawsgoed a Gogerddan yn hanfodol i astudiaeth o hanes canolbarth Ceredigion.

'Does dim tai mawrion o fewn y gymuned modern. Dau dy sydd wedi eu cofnodi fel plasau yma. Mae Penbryn (PRN 21356) yn bwysig am fod y hynafiaethydd ac ysgolor Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn) wedi byw yma am rhai blynnyddoedd hyd at ei farwolaeth (1757-1765). Mae Glan Rheidol (PRN 22400) yn nodwediadol o blasau llai Ceredigion, ac mae ei hanes yn ymestyn yn ôl cyn 1830. Dyma oedd cartref James Hughes, y dyn oedd yn gyfrifol am adeiladu yr eglwys yng Nghapel Bangor ac hefyd sicrhau bod y ffordd bresennol sy'n cysylltu Goginan ac Aberystwyth. Hughes oedd cyfreithiwr ystad Nanteos.

Anghyddfurfaeth

Y Methodistiaid Calfinaidd oedd yr enwad cryfaf yn y fro ac roedd chwe chapel Methodistaidd o fewn y gymuned, gyda dau ohonynt yn unig yn dal i gael ei ddefnyddio heddiw, hyd y gwyddom, sef Capel Penllwyn, Capel Bangor (PRN17408). Roedd y Dr. Lewis Edwards yn gysylltiedig â'r capel hwn, ac mae cerflun ohono yn sefyll y tu allan i'r capel. Roedd Edwards yn o enwau mawr y Methodististaidd Calfinaidd tua diwedd y 19eg ganrif ac yn ffigwr genedlaethol.

Roedd dau gapel Wesleidd ym Melindwr hefyd. Mae Capel Horeb, Cwmbrwyno (PRN 19831) wedi cael ei ddymchwel erbyn hyn, tra bod capel y Wesleaid yng Ngoginan bellach yn dy annedd (nid yw hwn wedi ei gofnodi yn y Cofnod Safleoedd ac Henebion eto). Roedd cysylltiad rhwng y capel yma a'r mwynwyr o Gernyw a ddaeth i'r fro yn y 19eg ganrif.

Enillodd y Bedyddwyr rhywfaint o dir yn yr ardal yn gynnar yn y 19eg ganrif hefyd ac mae hen gapel hardd Jezreel, un o'u capeli prin yng nghanolbarth Ceredigion, bellach yn adfail drist yn ymyl pentref Goginan.

Prif themâu

Yn fras, dyma rhestr o'r brif themâu hanesyddol y gellir eu hadnabod yn seiliedig ar y gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y Cofnod Safleoedd a Henebion;

1. Carneddau a chladdfeydd Oes yr Efydd. Mae nifer o safleoedd pwysig yma, gan gynnwys y bedd a gloddiwyd ym mynwent Capel Penllwyn.
2. Mae yna grwp pwysig o fryngaerau Oes yr Haearn yma ac at eu gilydd, mae'r henebion hyn yn ffurfio grwp hynod bwysig o safleoedd, yn enwedig o gofio fod yna bresenoldeb Rhufeinig yma yng nghaer Penllwyn.
3. Mwyngloddio. Dyma un o brif ddylanwadau ar hanes diweddar y fro sydd yn weladwy yn y dirwedd hyd heddiw. Mae pentref Goginan yn arbennig o bwysig yn y cyswllt yma.
4. Lewis Morris. Roedd Morris yn ffigwr o bwys genedlaethol yn y 18fed ganrif, am ei ysgrifau, ei farrdoniaeth, ei alluoedd fel cartograffydd a'i ddiddordeb mewn mwyngloddio. Mae'r ffaith ei fod e wedi byw ger Goginan werth ei nodi.
5. Rheilffordd Dyffryn Rheidol. Mae'r rhan fwyaf o gwrs y lein yma yn syrthio o fewn ffiniau'r gymuned ac fe ellir gwneud defnydd ohoni fel thema.

Part 1: History and archaeology

Mesolithic (10000BC – 4000BC)

During this distant period, it is thought that human communities periodically used the natural forests of this mountainous area as hunting grounds. The people of the time were hunter-gatherers and therefore moved from place to place rather than staying in settled communities.

As they didn't build permanent houses, or bury their dead in graves that we can recognise today, it is difficult to find sites associated with Mesolithic peoples. Often, the only evidence that we can recognise are the flint scatters derived from tool making activities, which denote the sites where groups of hunters would stay for a time, as well as flint tools that were lost or discarded.

Very few sites of relevance are known at present in this area, indeed there are none yet known within Melindwr community. Two flint scatters have been found to the east, at Nantymoch, Blaenrheidol (now beneath the waters of the reservoir), and a single flint mace-head has been found near The Arch, in Pontarfynach community.

Neolithic (4000BC – 2500BC)

The Neolithic was the age of the first farmers in the country and it is possible that the process of farming the land began locally during this period.

There are records of two Neolithic stone axes being found within the community, one in 1881 and the second about 1947 (PRN 6239 and 10578). They are important evidence of the presence of people in the area, but they do not permit us to say much about the extent of human activity during this period. However, the archaeology of the wider district shows clearly that there was a settled community here during the Bronze Age, the origins of which may well lie in the Neolithic period.

Bronze Age (2500BC – 800BC)

The landscape of Melindwr community is dotted with a significant number of Bronze Age burial mounds, or round barrows. One of these is a Scheduled Ancient Monument (PRN 4155).

As well as these cairns, there are a number of possible standing stones in the community, although they are all small examples. There is a stone pair called the “Buwch a'r Llo” (PRN 5613), which are associated with a tradition that grazing cattle were at one time tethered to the stones. The name probably originates from the fact that one stone is larger than the other and they can be compared with a cow and her calf standing on the common. They are probably natural stones rather than standing stones set by men. However, they have obviously attracted attention in the past and become the focus of tradition.

Cairns and standing stones have been shown to be associated with cremation burials, with the ashes of the dead often buried in earthenware urns. There are two cairns in the community which have been excavated by archaeologists in the past. Two cremation urns were found in one round barrow at Blaen Dyffyn Isaf (PRN 5605) in the late 19th century, and another two urns and cremated bone in another barrow there c. 1928 (PRN 5565).

Another location where human remains of the same period were surprisingly found was in the cemetery of Penllwyn Chapel, Capel Bangor. When a gravedigger was working here about 1925, he opened a grave (PRN 5416) that dated to the Bronze Age and which contained the cremated bones of a middle aged man in a cremation urn. Unusually, the grave had been filled with small stones to cover the urn.

Although we can identify some of the sites where Bronze Age people buried their dead, there is an absence of evidence at present for the settlements in which the population lived.

Local discoveries of stone axes also help bring us closer in touch with the people of the period. A good example of such a tool has been found locally (PRN 9998). The axe is now kept at the National Museum of Wales, Cardiff.

The little we know is enough to tell us that settled communities existed in this area some 3,500 years ago. Unfortunately, it hasn't yet been possible to identify evidence of Bronze Age settlements locally and much more work will be needed in future before we will be able to properly understand the nature of the communities that existed in the area during this period.

Iron Age (800BC – 43AD)

This period is noted for the defensive hillforts, which were built to defend people and property in a society characterised by warrior chieftains and warbands.

There are six hillforts in Melindwr community, most of which are in good condition. Four of these hillforts (PRN 1992, 4136, 5173 a 2026) are promontory forts, whilst the other two (PRN 2021 a 2056) stand on hilltops. The importance of these sites as a group, in association with hillforts in other communities must be emphasised, as they prove the presence of settled communities in the area 2,000 to 3,000 years ago. Four of the Melindwr hillforts are Scheduled Ancient Monuments (PRNs 1992, 2026, 2056 and 5173).

Such defensive sites were of good construction and have usually survived the ravages of the past 2,000 years. What has been lost from the period is evidence of the homes of the common people who lived outside the hillforts. It is likely that the majority were engaged in farming the land, living in scattered houses and huts, perhaps escaping to the forts at times of war or when attacked by other tribes – there is no doubt that life could be dangerous at times for the inhabitants of the area.

The presence of hillforts does indicate that farming and permanent settlement was present in the Melindwr district during this period, as well as the exploitation of local woods and mountain pastures to sustain the population.

The Roman Period (43AD – 410AD)

We know very little about the area during the Roman period. Life in a rural area such as Melindwr may have proceeded peacefully throughout the Roman period, although there must have been considerable cultural and economic influences from the Roman world during nearly 400 years of contact. It is known, for instance, that the old Celtic hillforts fell out of use across Wales after the Roman conquest.

There is a Roman fort at Penllwyn, Capel Bangor, which is not well preserved. When excavated in the late 1970s little evidence was found to date the fort, although some pottery dating to the period c.120AD was found, confirming it to be a relatively early Roman fort. Neighbouring Trawsgoed fort is known to have been in use between c.70AD and c.125AD, and it is possible that Penllwyn had a similar period of use.

We know that the Romans were also present in adjacent districts, as there are Roman forts at Crosswood and Llanio, to the south and Cae'r Gaer to the northeast (Llangurig parish, Powys). We know also of the Roman road running from Pumsaint, Carmarthenshire, through mid-Ceredigion and northwards to Machynlleth, which must have passed through the community, although its line has not yet been fixed. It is possible that the metal ores of Central Ceredigion were an attraction for the Romans, but there is at present no evidence of Roman mining in this community.

The Dark Ages or “The Age of the Saints” (410AD – 1092AD)

According to tradition, Ceredigion is named after Ceredig son of Cunedda, a Welsh prince who came from North Britain to defend the west coast from Irish incursions. Tradition also has it that St David, the patron saint of Wales, was the grandson of Ceredig. The most celebrated saint in Ceredigion, however, was Padarn and his main church was at Llanbadarn Fawr, close to the western boundary of Melindwr.

Also in Welsh tradition, this period in history is often referred to as “The Age of the Saints,” rather than the Dark Ages, because of the growth of the early church by the efforts of numerous Celtic saints. It is seen as an age of enlightenment, rather than a dark age, in Wales by many historians.

Despite such traditions being known to us, we know very little about the society of the time in this district during this period. Melindwr is one of the few communities in the county for which there is no record of an early church, or even a medieval church. A very wide area was served by Llanbadarn Fawr, including Melindwr, through medieval times and there is no record of a chapel of ease or daughter church here until the 19th century when St. Davids, Capel Bangor and the chapel-of-ease at Goginan were built.

One point that is worthy of mention here is that the name Capel Bangor is itself of interest. “Bangor” is a term usually associated with early church sites, but it is not known what its significance is in this instance.

The Medieval Period (1092AD – 1540AD)

During this period, we see Ceredigion developing as one of the most important regions in Wales. It was conquered by the Normans in 1093 and thereafter followed a period of uncertainty, with the Welsh and Normans fighting for supremacy for nearly 200 years. During the second half of the 12th century, Ceredigion became an integral part of the kingdom of Deheubarth, led by Rhys ap Gruffudd, The Lord Rhys of Dinefwr. Following his death, there was further warfare between his sons and Llywelyn Fawr of Gwynedd. Ceredigion was also affected by the wars of the later 13th century, when Wales was finally conquered upon the fall of Llywelyn ap Gruffudd.

There is a possible castle site dating to this troubled period in the community. Mention is made of a castle at or near Nantyrarian in 1216 (PRN 5675) and it appears possible that the Iron Age hillfort above Goginan (PRN 2026) has been modified in medieval times for use as a new defensive work.

The most reliable information we have of the wider district from the medieval period is that of the development of the granges of the great abbeys from the 12th century onwards. With generous gifts made by the princes and kings of the time, the monks were responsible for managing extensive properties, which produced foodstuffs, cattle, sheep and wool in particular.

Cwmhir Abbey, Powys had a grange at Nantyrarian that included a water mill and mountain grazing lands. It extended from Ponterwyd to Goginan and may have been based on the small lordship of Nantyrarian. The abbey's illustrious history came to an end with the Dissolution of the Monasteries by Henry VIII in 1536, when the lands were sold off to new owners.

Post-medieval: Industrial sites (1540 AD – 1900 AD)

Archaeological evidence shows that the district's metal ores have been worked since Bronze Age times, some 5,000 years ago. The most important site in this respect is Bryn Copa, Cwmystwyth, Pontarfynach, but within Melindwr community there is also some evidence of mining during this early period at Ty'n y Fron, Cwm Rheidol and also at the old Rheidol United workings on the opposite side of the Rheidol valley.

We know that there was a significant growth in the number and size of the metal ore mines between the 17th and 19th centuries, across the district. Records show that some of the most successful mines were located in this area. The remains of mines such as Goginan (PRN 8338), Cwmbrwyno (PRN 9170) and the Rheidol United workings (PRN25887 – 25891), as well as numerous small ventures, are all evidence of this. There are over 30 metal mines recorded in this community, the majority being small workings that produced only limited amounts of ore; mostly lead and zinc, as well as small amounts of copper and silver. Goginan was the largest mine by a long way. Its history extends back to the 17th century, whilst its 19th century records alone show that over 45,000 tons of lead was produced.

The mining industry has left its mark on the local landscape, with the remains of old levels, shafts, and spoil tips very obvious features at a number of locations. There is also a huge underground archaeological resource in the old mine workings, which are at present not accessible to the general public as many are of course unsafe.

We should not forget either about the evidence that survives of the effect this important industry had on the social, cultural and religious life of the area. The post-industrial atmosphere is evident in villages such as Goginan and Hen Goginan, in terms of the style of houses that are present. At Goginan, the chapel buildings of all the main denominations can be seen (now all closed) that were once the spiritual homes of the large population that found work and sustenance here at the lead mine. This includes the former Wesleyan Chapel, now a house, which stands near the now ruined row of miners' cottages known as Cornish Row, where Cornish Miners once lived. The Cornishmen were mostly Wesleyans and their presence in the area has long been remembered.

Mining wasn't the only local industry. Several small quarries are recorded in the community also, excavated in the past to provide building stone for the area.

There are corn and woollen mills recorded locally also. There are four old corn mills recorded here (PRNs 5421, 19147, 19157 and 21437). It is believed that Felin Graig (PRN 21437) is the site of the corn mill that worked on Cwmhir Abbey's Nantyrarian grange. The remains of the mill can still be seen, although little now survives above ground. Possibly, the most interesting secrets of the site are below ground, hidden from view. In the 19th and early 20th century, there was a woollen mill in Capel Bangor village.

No traveller in the area could fail to notice the effect that the plantations of the Forestry Commission have had on the landscape. Large parts of the area have been covered by thick conifer forests. These plantations began on a large scale in Central Ceredigion during the 1950s. By today, these forests offer good opportunities for developing pathways for leisure and enjoyment, as well as saleable wood. The role of the Forestry Commission in developing and managing their estates may prove very important to the future of the area for many reasons and their visitor centre at Nantyrarian is already a popular attraction.

Another indication of past industrial endeavour is the presence of the famous Vale of Rheidol railway, which continues in use and links Devils Bridge with Aberystwyth. When the railway was built in 1902, the metal mines of the district were still active and the line was used to carry lead and other ores from Cwmystwyth (via Devils Bridge) and other mines along the Rheidol valley. Today, it is mostly tourists that use the line and it has become a significant and popular visitor attraction which follows the Rheidol valley through the southern part of the community.

Post-medieval: Non-industrial sites (1540 AD – 1900 AD)

Farming and Rural Settlement

For centuries, the local landscape has been characterised by scattered farms and small hamlets and farming has been one of the mainstays of the area since early times. The farms of the community are likely to have moved stock to the mountains to the east for summer grazing as limited areas of marginal or mountain land have been available for summer pasture within the farmed landscape.

The modern settlement pattern is still one of scattered dwellings, with only a few small villages having developed during the last 200 years, such as Old Goginan, Goginan, Pisgah and Capel Bangor. Whereas the Goginan settlements are very clearly the product of industrial growth, other small villages very much a product of other post-medieval social and economic developments and have grown to include churches, chapels, mills and smithies.

The Great Estates

Between the 16th and 20th centuries, a number of large estates owned most of the land the district. Many of these grew out of the estates of Strata Florida Abbey. With the Dissolution of the Abbeys under Henry VIII during the 1530s, the process of breaking up Strata Florida's extensive and fairly wealthy estates and selling them into private ownership began. The names of estates such as Hafod, Nanteos, Crosswood and Gogerddan are fundamental to the study of the history of central Ceredigion.

There are no great houses in the modern community and only two houses are recorded as mansions here. Penbryn (PRN 21356) is important as the home of the antiquarian and scholar Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn), who lived here for some years before his death (1757-1765). Glan Rheidol (PRN 22400) is typical of the smaller Ceredigion country mansions and its history extends back before the 1830s. This was the home of one James Hughes, the man responsible for building the church at Capel Bangor and also ensuring the construction of the road that now connects Goginan and Aberystwyth. Hughes was also the Nanteos estate solicitor.

Nonconformism

The Calvinistic Methodists were the strongest denomination in the area in the past, and there are six Methodist chapels in the community, only one of which is known to be in use today, namely Capel Penllwyn, Capel Bangor (PRN17408). Dr. Lewis Edwards was associated with Penllwyn, and his bust can be seen outside the chapel today. Edwards was one of the most important figures of the Calvinistic Methodist denomination during the late 19th century.

There were also two Wesleyan Methodist chapels in Melindwr. Capel Horeb, Cwmbrwyno (PRN 19831) has been demolished, whilst the Wesleyan chapel at Goginan is now a dwelling (this chapel is not yet recorded in the Sites and Monuments Record). There was a connection between this chapel and the Cornish miners who came to the area during the 19th century.

The Baptists gained a foothold in the district in the early 19th century and the attractive old chapel of Jezreel, one of their few chapels in Central Ceredigion, is now a sad ruin at the edge of Goginan village.

Main themes

In outline, this list presents the main historical themes that can be identified from the information held within the Sites and Monuments Record.

1. Bronze Age cairns and burials. There are a number of important sites in the community, particularly the burial found at Penllwyn Chapel.
2. There are a number of Iron Age hillforts here, which must be together considered to form an important group of sites, especially in view of the presence of the Roman fort at Penllwyn.
3. Mining. This is one of the major influences on the recent history of the community and its landscape, which can still be felt today. Goginan is a particularly important area in this respect.
4. Lewis Morris. Morris was a figure of national importance in the 18th century for his writing, poetry, his cartographic abilities and his interest in mining. The fact that he lived near Goginan is worthy of note.
5. Vale of Rheidol Railway. Most of the course of this line runs through the community and it can be considered to be a theme worthy of interpretation.

Llyfrau i'w darllen

Reading list

Ffynhonell / Source:

“*Upland Ceredigion Historic Landscape Characterisation*”
gan/ by Ken Murphy, Archaeoleg Cambria Archaeology, 1999

Cyhoeddiedig / Published

- Bick, D E, 1974 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 1 Cardiganshire - South of Devil's Bridge*
- Bick, D E, 1983 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 2 The Rheidol to Goginan*
- Bick, D E, 1988 *The Old Metal Mines of Mid-Wales: Part 3 Cardiganshire - North of Goginan*
- Briggs, C S, 1994 'The Bronze Age', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 124-218
- Cadw, 1992 *Strata Florida Abbey*
- Carr, T and Schöne, A, 1993 *Pigs and Ingots: The Lead/Silver Mines of Cardiganshire*
- Caseldine, A, 1990 *Environmental Archaeology in Wales*
- Chapman, J, 1992 *A Guide to Parliamentary Enclosures in Wales*
- Coyler, R, 1984 *Roads and Tracks of Wales*
- Davies, J L, 1994 'The Roman Period' in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 276-317
- Davies, J L and Hogg, A H A, 1994 'The Iron Age', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 220-74
- Davies, M, 1973 'Field systems of south Wales', in A R H Baker and R A Butlin (Eds.), *Studies of Field Systems in the British Isles*
- Dodgshon, R A 1994 'Early society and economy', in J L Davies and D P Kirby (Eds.), *Cardigan County History, Volume 1, From the Earliest of Times to the Coming of the Normans*, 343-64
- Edlin, H L, 1959 *Cambrian Forests*
- Gruffydd, W.J. Undated, Carmel y Bedyddwyr, Pontrhydfendigaid 1834-1984
- Jones, G R J, 1985 'Forms and patterns of Medieval settlement in Welsh Wales', in D Hooke (Ed.), *Medieval Villages: A Review of Current Work*
- Jones, G J, 1988 'Church and chapel in Cardiganshire, 1811-1914', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 478-507
- Jones Pierce, T, 1959 'Medieval Cardiganshire - a study in social origins', *Ceredigion*, 3 (1959), 1-19
- Howells, B, 1974/75 'Social and agrarian change in early modern Cardiganshire', *Ceredigion*, 7, 256-72
- King, D J C, 1956 'The castles of Cardiganshire', *Ceredigion*, 3, 50-69

Knowles, A K, 1998 'The structure of rural society in north Cardiganshire, 1800-1850', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Lewis W J, 1955 *Ceredigion: Atlas Hanesyddol*

Lewis, W J, 1988 'Lead mining in Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Moore-Colyer, R J, 1998 'Agriculture and land occupation in eighteenth- and nineteenth-century Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Moore-Coyler, R J, 1998 'The landed gentry of Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Percival, D, 1998 'Inventory of nonconformist chapels and Sunday schools in Cardiganshire', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 508-39

Radford, C A R, 1971 *Strata Florida Abbey*

Smith, P, 1966 'Type B regional houses', *Archaeology in Wales*, 6, 27-28

Smith, P, 1988 *Houses of the Welsh Countryside*

Smith, P, 1988 'The domestic architecture of the County. I. The rural domestic architecture: ffermdy, plas and bwthyn', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*

Timberlake, S, 1996, "Ty'n y Fron Mine" *Archaeology in Wales* 36, p.61-2.

Walker, R F, 1988 'Tourism in Cardiganshire, 1774-1974', in G H Jenkins and I G Jones (Eds.), *Cardiganshire County History, Volume 3, Cardiganshire in Modern Times*, 299-322

Williams, D H, 1990 *Atlas of Cistercian Lands in Wales*

Rhan 2: Mynegai mathau o safleoedd a mapiau

Part 2: Site type index and maps

Neolithic**FINDS**

6239	TY'N Y GRAIG
10578	TAN-YR-OCHR

Bronze Age**CIST**

5416	PENLLWYN
------	----------

CREMATION BURIAL

5606	BLAEN DYFFRYN-ISAF
------	--------------------

FINDS

9998	BRYN-AWEL
------	-----------

ROUND BARROW

4135	GELLI
5605	BLAEN DYFFRYN-ISAF
8588	NANT GEIFAES

ROUND BARROW?

6166	MAES CRUG;TAFARN CRUG
8327	ERW-TOMAU
11919	CARN PENMORREM;CARN PENMOELFREN;BRYN GWYRFYL

STANDING STONE

5611	CASTELL COCH
8586	MYNYDD MARCH
8590	DISGWYLFA FACH

STANDING STONE?;STONE PAIR?

6238	GLANDWR
------	---------

STONE PAIR

5613	BUWCH A'R LLO
------	---------------

Bronze Age;Post Med?**RING BARROW?;FOLD?**

8583	PEN Y GRAIG-DDU
------	-----------------

Iron Age**HILLFORT**


1992	PEN-Y-FELIN WYNT;COED LLUEST
2021	CAPEL BANGOR CAMP;CASTELL YR ABER
2026	CASTELL GOGINAN FACH
2056	CASTELL BWA-DRAIN
4136	ESGAIR NANT YR ARIAN
5173	TAN-Y-FFORDD

Prehistoric?**FINDS**

11348	RHEIDOL PARK
-------	--------------

Map 3: Safleoedd Cynhanesyddol ym Melindwr
Prehistoric Sites in Melindwr

- Yr Oes Efydd - Bronze Age
- ▲ Yr Oes Haearn - Iron Age
- Neolithig - Neolithic
- ★ Cynhanesyddol - Prehistoric



Roman

FORT	7719	PEN LLWYN
-------------	------	-----------

Roman?;Medieval?

FINDS	2027	GOGINAN
--------------	------	---------

Dark Age?;Medieval?

BANGOR?	6167	BANGOR COTTAGE;MAES BANGOR FARM
	6185	MAES BANGOR
	6186	CEFN BANGOR UCHAF

Medieval

CASTLE	5675	NANT YR ARIAN CASTLE;OLD GOGINAN CASTLE
COURT HOUSE;MANOR HOUSE	12438	REDONNEN;RHYDONEN
FORD	12436	TROED-RHIW-CEIR
MAJOR DWELLING	12852	LLWYN IORWERTH
SETTLEMENT	10907	LLANGURDA;BRON-LLANGWRDA

Medieval;Post Med

TRACKWAY	27925	UNKNOWN
	27926	UNKNOWN

Medieval?;Post Med


TRACKWAY	27924	UNKNOWN
-----------------	-------	---------

Medieval?;Post Med?

DESERTED RURAL SETTLEMENT	8589	GLANDWR
WINDMILL	14256	PEN Y FELIN WYNT

Map 4: Safleoedd y cyfnodau Rhufeinig hyd at Canoloesol ym Melindwr
Roman to Medieval Sites in Melindwr

- Yr Oes Tywyll - Dark Age
- ★ Canoloesol - Medieval
- Rhufeinig - Roman



Safleoedd Öl-ganoloesol diwydiannol ym Melindwr

Post Medieval industrial sites in Melindwr

Medieval?;Post Med?

WINDMILL

14256 PEN Y FELIN WYNT

Post Med

CORN MILL

5421 CAPEL BANGOR MILL SITE

FULLING MILL;CORN MILL

19351 PANDY CAPEL BANGOR

LEAT

37234	UNKNOWN
37246	PENYGRAIGDDU
37345	BWLCH MINE
37346	BWLCH MINE
37347	BWLCH MINE
37353	BWLCH MINE
37354	BWLCH MINE
37355	BWLCH MINE
37356	BWLCH MINE
37357	BWLCH MINE
37358	BWLCH MINE
37361	BWLCH MINE
37379	DISGWYLFA FACH
37380	ESGAIR NANT-Y-MOCH

LEVEL

27919	UNKNOWN
27920	UNKNOWN
38170	LEVEL YR UCH & SPOIL TIP
38592	GOGINAN FACH LEVELS

METAL MINE

25881	TWEDNINCREAN;TROEDRHIWCEIR MINE?
25886	GEUFRON;WEST IMPERIAL;GEIFRON;GYFRON;SILVER BANK WEST

METAL MINE?

37238 UNKNOWN

METAL MINE-COPPER LEAD

